

**GRANTIAU CYFALAF TRAFNIDIAETH LEOL LLYWODRAETH CYMRU BA2020-21
FFURFLEN GAIS**

**Y GRONFA TRAFNIDIAETH LEOL, Y GRONFA FFYRDD CADARN A'R GRONFA TRAWSNEWID CERBYDAU ALLYRIADAU
ISEL IAWN**

Bydd awdurdodau lleol yn cwblhau un ffurflen i bob cynllun. Gall cynllun gynnwys un prosiect neu becyn o brosiectau cysylltiedig

Awdurdod Lleol	Cyngor Bro Morgannwg
Enw'r Cynllun	Gwella Safleoedd Bws (Seilwaith ac Arddangosfeydd Electronig) – Bro Morgannwg
Rhif Blaenoriaeth y Cynllun	4
Cynllun Presennol neu Newydd	Newydd
Grant (dewiswch un)	Cronfa Trafnidiaeth Leol
Dyddiad y Cynllun	Dechrau: 01-Ebr-2020 Amcan Ddyddiad Cwblhau: 31-Maw-2022
Cyllid mae ei angen ar gyfer 2021-22	£369,635
Enw Cyswllt Rheolwr y Prosiect	Andrew Eccleshare
Rhif Ffôn Cyswllt	029 20673133
E-bost Cyswllt	AEccleshare@valeofglamorgan.gov.uk
Awdurdodwyd gan (e.e. Pennaeth Cyllid neu'r Gwasanaethau Trafnidiaeth)	Enw: Emma Reed Teitl y Swydd: Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth Llofnod: <i>11 Reed</i>

RHESTR WIRIO WELTAG

1. Pa Gamau WelTAG ydych chi wedi'u cwblhau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

Cam 1 ☐ Cam 2 ☐ Cam 3 ☐ Cam 4 ☐

Ar gyfer pecynnau, rhestrwch bob prosiect isod a nodwch y Camau WelTAG a gwblhawyd ar gyfer pob prosiect:

Dd/B

2. Pa lefel **risg** yw eich astudiaeth? Ticiwch un (Gweler WelTAG tudalen 34 am ddiffiniadau).

Isel ☐ Canolig ☐ Uchel ☐

Ar gyfer pecynnau, rhestrwch bob prosiect isod a nodwch y lefel o risg ar gyfer pob prosiect:

Dd/B

3. Pwy sydd neu fydd ar eich **Grŵp Adolygu**? Rhodwch deitl y swydd a'r adran/sefydliad sy'n cynrychioli.

Economaidd	Dd/B
Cymdeithasol	Dd/B
Diwylliannol	Dd/B
Amgylcheddol	Dd/B
Arbenigwr Teithio Llesol	Dd/B
Arall (nodwch)	Dd/B

Ar gyfer pecynnau, lle mae gwahanol Grwpiau Adolygu, rhestrwch y prosiectau isod a rhowch wybodaeth am bwy sydd neu fydd ar y grŵp adolygu ar gyfer pob prosiect:

Dd/B

4. Pa gamau WelTAG rydych chi'n bwriadu eu cwblhau erbyn diwedd 2021-22? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Cam 1 ☐ Cam 2 ☐ Cam 3 ☐ Cam 4 ☐

O ran pecynnau, rhestrwch y prosiectau isod a nodwch y Camau WelTAG a gwblhawyd ar gyfer pob prosiect:

Dd/B

DISGRIFIAD O'R CYNLLUN

Rhowch ddisgrifiad byr o'r cynllun. Os yw eich cais ar gyfer cynllun a fydd yn cymryd mwy na blwyddyn ariannol i'w gwblhau, mae arnom angen disgrifiad o'r cynllun cyfan a'r elfennau a gaiff eu cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol. Dylai ceisiadau am becyn o gynlluniau gynnwys rhestr â chostau'r prosiectau cysylltiedig yn nhrefn blaenoriaeth.

Atodwch fapiau lleoliad A4, lluniad(au) prosiect(au) ac unrhyw wybodaeth ategol arall ar wahân.

Cyfeirnod Grid AO:

Mae prosiect Cyngor Bro Morgannwg i uwchraddio safleoedd bws presennol a disodli hen lochesi bysiau yn parhau.

Hyd yma mae'r Cyngor wedi ariannu'r prosiect parhaus hwn gan ddefnyddio ei gyllidebau ei hun, cyfraniadau cynllunio Adran 106 tuag at deithio cynaliadwy a chyllid LTNF Llywodraeth Cymru (h.y. dros y blynyddoedd diwethaf ar gyfer yr A48, gorllewin y Barri a lleoliadau allweddol eraill). Fodd bynnag, mae angen gwella dybryd o hyd mewn llawer mwy o safleoedd bws ledled Bro Morgannwg.

Y cynnig hwn yw uwchraddio'r seilwaith a cysgodfeydd bysiau mewn 10 safle bws arall mewn gwahanol leoliadau ledled Bro Morgannwg lle nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol, yn hygyrch nac yn ddymunol ei defnyddio.

Dylid nodi bod y Cyngor bellach yn ceisio safoni ei gyfleusterau safleoedd bws, yn enwedig o ran cysgodfeydd, wrth i'r prosiect hwn fynd rhagddo. Yn wir, lle bo hynny'n ymarferol ac yn addas, mae cysgodfeydd ffrâm ddur gwrthstaen o ansawdd uchel gyda waliau gwydr clir, seddau coch a goleuadau'n cael eu gosod, a fydd, gobeithio, yn eu diogelu at y dyfodol wrth i ddull mwy cydweithredol gael ei ddefnyddio gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, ALLau a gweithredwyr (h.y. drwy ddefnyddio lliwiau Trafnidiaeth Cymru).

Yn ogystal ac yn dilyn cais llwyddiannus LTNF yr Awdurdod y llynedd am 'byrddau arddangos electronig mewn safleoedd bws,' mae'r cynnig hwn hefyd yn cynnwys darparu byrddau arddangos electronig mewn unrhyw loches bws newydd a osodir fel rhan o'r prosiect hwn, a fydd yn ei dro yn gwella profiad teithio cyffredinol y defnyddwyr yn sylweddol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am safleoedd bysiau ar gael mewn fformat modern a glân.

Mae Atodiad A ynghlwm yn dangos enghreifftiau o (A) y math newydd o gysgodfa safle bws y mae Cyngor Bro Morgannwg yn ei brynu i'w ddefnyddio a (B) enghreifftiau o'r hen fath/y math safonol o gysgodfeydd sy'n cael eu hadnewyddu.

ACHOS BUSNES Y CYNLLUN

1. ACHOS STRATEGOL

Yr Achos dros Newid	
Cyd-fynd â'r Strategaeth Drafnidiaeth ddrafft newydd ar gyfer Cymru	Drwy ddarparu cyfleusterau modern, glân, hygyrch a dymunol i deithwyr eu defnyddio wrth aros am wasanaethau bws lleol, bydd y cynllun yn cyd-fynd â'r

Nodwch sut y mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Drafnidiaeth ddrafft newydd ar gyfer Cymru	blaenoriaethau a nodir yn Llwybr Newydd (Strategaeth Drafnidiaeth ddrafft Cymru) drwy: • Gyfrannu at leihad posibl yn lefelau'r nwyon tŷ gwydr drwy helpu i annog newid moddau teithio o gerbydau preifat sy'n defnyddio tanwyddau crai i drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy; • Cyfrannu at ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus y gall pawb eu defnyddio, y mae pawb eisiau eu defnyddio ac yn eu defnyddio drwy eu gwneud yn fwy deniadol i'w defnyddio; • Cyfrannu at seilwaith trafnidiaeth diogel, hygyrch sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda sy'n cefnogi dewis trafnidiaeth cynaliadwy; • Cyfrannu at wneud dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy yn fwy deniadol i bobl a busnesau; a • Chyfrannu at gefnogi datblygiadau arloesol sy'n helpu pobl a busnesau i fabwysiadu dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.
Y Sefyllfa a Materion Presennol ac yn y Dyfodol Beth yw'r materion lleol ac ehangach y bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael â nhw yn y tymor byr a'r tymor hir? Dylid cynnwys data gwaelodlin lle mae ar gael. Beth fydd yn digwydd os na chymerir camau gweithredu?	Mae safleoedd a chysgodfeydd bws yn rhoi mynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lleol a strategol sy'n cysylltu defnyddwyr ag aneddiadau allweddol eraill (e.e. Caerdydd a Llanilltud Fawr), yn ogystal ag un o'r Meysydd Cyfle Strategol a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru (Sain Tathan). Nid oes gan lawer o'r safleoedd bws presennol y seilwaith angenrheidiol i alluogi teithwyr sydd â nam symudedd neu sydd â phlentyn ifanc mewn cadair wthio i fynd i mewn i fws a'i adael heb anhawster. At hynny, mae rhai safleoedd bws wedi troi'n lleoedd annymunol i gael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, gyda theithwyr yn aros mewn amgylchedd digysgod ac annifyr, ac mewn mannau eraill, caiff bysus eu hatal rhag dod yn agos at ymyl y palmant oherwydd parcio anystyriol. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn rhwystro defnydd trafnidiaeth gyhoeddus ac yn effeithio ar ddibynadwyedd gwasanaethau.

	Mae'r gweithgarwch economaidd a'r cynnydd mewn twristiaeth yn y Barri ac Ynys y Barri, yn ogystal â'r cynnydd yn nifer y teithiau siopa ar lannau'r Barri oherwydd gwaith datblygu sylweddol yn yr ardal hon wedi arwain at broblemau gyda thagfeydd a mannau cyfyng lle mae bysus yn cael eu hoedi a'r amserau teithio'n cael eu hestyn am wahanol resymau megis ciwiau traffig yn atal troi i'r dde wrth gyffyrdd. Os yw parcio anystyriol yn achosi oedi, gall Tîm Gorfodi Parcio Sifil y Cyngor orfodi'r cyfyngiadau parcio sydd ar waith. Os na chymerir camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol, bydd y gweithredwyr bws yn wynebu cylch dieflig o oedi wrth i bobl gymryd amser hir i fynd ar y bysus ac yn eu gadael a chyda thagfeydd traffig, sydd oll yn gallu effeithio ar brydlondeb ar hyd y coridor bysus. Bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar gostau gweithredu a phrisiau tocynnau a fydd yn atal teithwyr rhag teithio ar fws a'u hannog i newid i'r car, gan gynyddu tagfeydd traffig. Bydd seilwaith o ansawdd gwael wrth ochr y ffordd hefyd yn rhwystr i deithwyr ac mae perygl dros y tymor hwy y bydd rhaid i'r gweithredwyr leihau amllder gwasanaethau a chynyddu amserau teithio o un pen y daith i'r llall er mwyn cynnal hyfywedd masnachol y gwasanaethau. Byddai dileu unrhyw wasanaeth bws yn cael effaith andwyol ar weithwyr shiftt, siopwyr a thwristiaid sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn.
Amcanion y Cynllun Beth yw amcanion y cynllun? (Dylai fod hyd at 5 neu 6 amcan a dylent ddilyn y canllawiau CAMPUS - Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.)	Amcanion y cynllun yw: • Uwchraddio seilwaith o leiaf 10 safle bws. • Gwella profiad teithwyr sy'n defnyddio'r cyfleusterau safle bws penodol hyn. • Gwella mynediad i'r cyfleuster safle bws i bawb, ond yn enwedig i bobl â nam symudedd a'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a chadeiriau gwrthio. • Gwella mynediad rhwng y safle bws a'r bws ei hun i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd â nam symudedd a'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a chadeiriau gwrthio.

	Darparu gwell cyfleusterau gwybodaeth (h.y. baneri safle bws newydd gyda rhifau'r gwasanaethau cyfredol, casys amserlenni mwy i roi lle ar gyfer gwybodaeth gan weithredwyr amrywiol a byrddau arddangos gwybodaeth electronig).
Canlyniadau'r cynllun Beth yw'r canlyniadau penodol y bydd y cynllun yn eu cyflawni?	Mae amcanion y cynllun yn cynnwys darparu: - Cysgodfeydd bws newydd (lle mae'r droedffordd yn ddigon llydan), gan gynnwys: ➤ goleuadau; ➤ casys arddangos gwybodaeth mawr; ➤ byrddau arddangos electronig a ➤ baner safle bws. - Cyrbau uchel hygyrch sy'n iselhau'n raddol yn y naill ben; - Cyrbau isel hygyrch wrth ddynesu at safleoedd bws. - Gosod wyneb newydd ar yr ardal aros i deithwyr gan gynnwys mannau arwyneb caled adeiledig lle bo'n briodol. - Adnewyddu marciau ac arwyddion clirffyrdd.
Cyd-fynd â Pholisïau a Chynlluniau Nodwch ym mha le y mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â pholisïau a chynlluniau lleol megis yr Asesiad Lles Lleol, y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ac unrhyw bolisïau a chynlluniau cysylltiedig eraill.	Mae de Bro Morgannwg o Ben-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd trwy'r Barri wedi cael ei nodi fel coridor bysus strategol ac mae'n gwasanaethu amrywiol ardaloedd twf ac, yn ei thro, wedi'i nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar gyfer gwelliannau trafndiaeth gynaliadwy.
Tystiolaeth o Gynnwys ac Ymgynghori â'r Gymuned Rhewch grynodedb o sut rydych wedi ymgysylltu â chymunedau lleol ac ymgynghori ar eich cynigion. Sut rydych chi wedi cynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig? Sut mae'r broses hon wedi llywio datblygiad y cynllun?	Mewn cyfnod arferol (h.y. cyn Covid), mae'r Cyngor: - Yn cwrdd yn rheolaidd â Grŵp Trafnidiaeth Fforwm 50+ Bro Morgannwg; - Yn cyfranogi ym mhob digwyddiad 'Mae Eich Bws yn Bwysig' a drefnir gan Ddefnyddwyr Bysiau Cymru ym Mro Morgannwg sy'n hygyrch i bawb allu mynychu. - Yn ymgymryd ag arolygon boddhad ar-lein rheolaidd parthed trafndiaeth gyhoeddus, sydd yn ei dro yn bwydo data dangosyddion perfformiad Meincnodi Cymru.

	Nod y cynllun, sy'n seiliedig ar drafodaethau â defnyddwyr a cheisiadau gan ddefnyddwyr, ynghyd â gofynion y Ddeddf, yw gwella mynediad i bawb at gyfleusterau a gwasanaethau bysiau, ond yn enwedig i'r rhai sydd â phroblemau symudedd (e.e. pobl anabl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu rieni â phlant ifanc mewn cadeiriau gwthio).
--	---

Cyd-fynd â Diben / Amcanion y Grant

Nodwch isod sut mae eich cynllun yn cyfrannu at ddiben / amcanion grant perthnasol. Llenwch am y grant rydych yn gwneud cais amdano yn unig a gadewch y llall yn wag.


Enw'r Grant	Diben / amcanion y grant	Cyfraniad y Cynllun
Cronfa Trafnidiaeth Leol	- Lleihau anweithgarwch economaidd drwy sicrhau mynediad cynaliadwy i gyflogaeth - Gwella ansawdd bywyd, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a gwledig, drwy ddarparu trafndiaeth gynaliadwy i gyfleusterau a gwasanaethau allweddol - Cysylltu cymunedau a galluogi mynediad i wasanaethau allweddol - Gwella dibynadwyedd amserau teithio ar drafndiaeth gyhoeddus - Lleihau amserau teithio ar drafndiaeth gyhoeddus	Bydd y cais hwn yn helpu i: - Wella amserau mynd i mewn i fysus a'u gadael ac felly helpu i leihau amserau teithio'r gwasanaethau bws lleol sy'n gwasanaethu'r safleoedd bws hyn. - Gwella'r cyfleusterau ar gyfer teithwyr sy'n aros i ddefnyddio gwasanaethau bws lleol yn y safleoedd bws hyn lle mae gwasanaethau bws lleol strategol yn eu cysylltu â chymunedau eraill, yn ogystal â chanolfannau cyflogaeth, addysg ac iechyd (e.e. ardaloedd menter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd, canol gwahanol drefi a dinasoedd, parciau manwerthu Croes Cwrlwys, ac ysbytai'r Barri a Llandochoau). - Cynnig gwell mynediad i'r rhwydwaith bysus lleol ar gyfer preswylwyr sydd â symudedd cyfyngedig, a thrwy hynny eu galluogi i gael mwy o annibyniaeth a hyblygrwydd i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau allweddol ar gyfer eu gweithgareddau dydd i ddydd.

		• Mynd i'r afael â llygredd a gwella ansawdd yr aer trwy newid y dull teithio o geir i fysus a thrwy wella llif y traffig trwy gael leddfu'r pwysau traffig mewn mannau prysur iawn. • Annog a hwyluso teithio llesol dros bellteroedd byr megis rhagor o deithiau cerdded byr i fannau cychwyn a gorffen taith bws.
Cronfa Ffyrdd Cadarn	• Mynd i'r afael â tharfu ar y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i dywydd garw, yn enwedig ar y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus	
Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel iawn	• Darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan, sy'n targedu defnyddwyr heb fynediad i barcio oddi ar y stryd. • Darparu seilwaith gwefru mewn meysydd parcio cyhoeddus. • Mannau gwefru cerbydau trydan – yn benodol mewn ardaloedd lle mae modd cefnogi amrywiaeth o anghenion gwefru cerbydau trydan • Darparu seilwaith gwefru ar gyfer tacsis, cerbydau llogi preifat a bysus • Darparu Fflyd Werdd ar gyfer tacsis, cerbydau llogi preifat a bysus • Darparu micro symudedd (h.y. cymorth i gymryd rhan mewn treialon e-sgwteri'r Adran Drafndiaeth, hyrwyddo e-feiciau a beiciau e-gargo)	

2. ACHOS TRAFNIDIAETH

Cyfraniad at Nodau Lles

Rhaid i gynlluniau trafndiaeth geisio sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau lles. Rhowch grynoded o effeithiau'r cynllun ar y nodau lles. Dylai hyn gael ei lywio gan asesiadau effaith statudol ac anstatudol y cynllun.



Nod Lles	Effaith (dewiswch un ar gyfer pob nod)
Cymru lewyrchus	Cadarnhaol / niwtral / negyddol
Cymru gydnerth	Cadarnhaol / niwtral / negyddol
Cymru iachach	Cadarnhaol / niwtral / negyddol
Cymru fwy cyfartal	Cadarnhaol / niwtral / negyddol
Cymru o gymunedau cydlynol	Cadarnhaol / niwtral / negyddol
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cadarnhaol / niwtral / negyddol
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cadarnhaol / niwtral / negyddol

Gwerth am Arian

Esboniwch pa gamau a gymerwyd i sicrhau y cadwyd prisiau mor isel â phosibl ac i fesur p'un a fydd y cyllid y gofynnwyd amdano yn rhoi gwerth am arian.. Dylid cynnwys y Gymhareb Buddion Cost (CBC) os yw'n hysbys:

Bydd y cynllun yn cael ei reoli gan Dîm Dylunio ac Adeiladu'r Cyngor gyda'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn gleient iddo.

Bydd y cysgodfeydd bws newydd yn cael eu caffael yn dilyn tendr agored trwy GwerthwchiGymru, a fydd yn cynnwys gwaith gosod ar ôl i'r Cyngor gwblhau unrhyw waith sifil gofynnol.

Bydd Byrddau Gwybodaeth Electronig yn cael eu caffael gan gyflenwr presennol er mwyn sicrhau unfurfiaeth ar draws Bro Morgannwg.

Asesiad o'r Effaith

Rhowch grynodeb o effeithiau disgwyledig y cynllun, pwy y byddant yn effeithio arnynt a sut, ynghyd â thystiolaeth ategol ansoddol/meintiol allweddol. Dylid ystyried yr effeithiau a nodir isod bob amser, ond nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gall effeithiau eraill fod yn berthnasol. Gall effeithiau fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral, a dylent ystyried pob defnyddiwr gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.

Nod Lles	Effeithiau	Sut mae'r cynllun yn lleihau effeithiau negyddol ac yn sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf?
Cymru lewyrchus <i>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y cyfyngiadau ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd), ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a grëir trwy sicrhau gwaith boddhaol.</i>	- Newidiadau mewn cynhyrchiant: argaeledd gweithlu addas ar gyfer cyflogwyr ac effeithiau newidiadau cydgrynoadau. - Costau trafndiaeth: costau ariannol a delir gan y rhai sy'n teithio e.e. costau gweithredu cerbydau, tollau, a ffioedd trafndiaeth gyhoeddus. - Damweiniau: cost damweiniau. - Tir: a yw'r cynllun yn lleihau faint o dir amaeth sydd? A yw'n rhyddhau safleoedd i'w datblygu? - Costau cyfalaf: i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat yn deillio o'r cynllun ei hun ac o'r effeithiau - Costau refeniw: i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat, ac i ddefnyddwyr o'r cynllun ei hun ac o'r effeithiau - Newidiadau yn yr amser teithio: ar draws pob dull yr effeithir arno ar gyfer defnyddwyr y cynllun a rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio.	Nod y cynllun yw lleihau effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol trwy'r canlynol: - Gwella mynediad at/o wasanaethau bws lleol a allai, yn ei dro, gynorthwyo i newid dulliau teithio o gar preifat i drafndiaeth gyhoeddus. Yn ei dro, gall hyn gynyddu elw o'r prisiau a gymerir a gallai arwain at ostyngiadau mewn prisiau. - Gwella mynediad diogel at y safle bws ac ohono, a rhwng y safle bws a'r bws a fydd, yn ei dro, yn lleihau'r posibilrwydd y bydd damweiniau wrth fynd ar y bws neu ddod oddi arno, yn enwedig i'r rhai sydd â phroblemau symudedd. - Gwella amserau teithiau gwasanaeth trwy helpu i gyflymu'r amser a gymerir i fynd ar y bws a dod oddi arno yn y y safleoedd hyn. - Gwella amserau teithio i ddefnyddwyr eraill y ffordd gan y gellir lleihau'r amser y mae bysus yn ei dreulio wrth y safleoedd bws hyn trwy well hygyrchedd yn seilwaith y safleoedd bws, a bydd hynny yn ei dro, yn cyflymu llif y traffig.

	- Newidiadau yn nibynadwyedd amser y teithiau: newidiadau yn amrywiad amserau teithiau rhwng adegau'r dydd a rhwng teithiau a wneir ar yr un pryd bob dydd. - Economi leol: sut mae'r cynllun yn effeithio ar y sectorau yn yr economi leol? - Mynediad at wasanaethau: effaith ar deithiau i wasanaethau allweddol fel cyfleusterau iechyd, ysgolion - Mynediad at gyflogaeth: nifer y swyddi y gall pobl eu cyrraedd a pha mor hir yw amser y daith	- Gwella mynediad at safleoedd datblygu arfaethedig ac ohonynt ar hyd coridor deheuol Bro Morgannwg (e.e. tir sy'n gyfagos i Faes Awyr Caerdydd), yn ogystal ag ardaloedd menter presennol LIC ym Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. - Gwella mynediad at y safleoedd canlynol gan ddarparu gwasanaethau allweddol trwy wasanaethau bws lleol sy'n gwasanaethu'r safleoedd bws hyn: - Cyflogaeth (e.e. Ardaloedd Menter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan, yn ogystal â pharciau manwerthu/diwydiannol amrywiol, canol trefi amrywiol a chanol dinasoedd ar lwybrau a wasanaethir) - Addysg (e.e. Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr, Ysgol Uwchradd Whitmore, Ysgol Uwchradd Pencoedtre, ysgolion cynradd amrywiol, Caerdydd a Choleg y Fro, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, Caerdydd. - Iechyd (e.e. Ysbyty Cymuned y Barri, Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac amryw ganolfannau iechyd, siopau optegydd a fferyllfeydd ac ati). - Siopa (e.e. Croes Cwrlwys, canol tref y Barri a'r Glannau, canol tref Pen-y-bont ar Ogwr, Canol Dinas Caerdydd, Parc Manwerthu Bae Caerdydd a Chanol Tref Llanilltud Fawr.
Cymru gydnherth <i>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cynnal gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).</i>	- Sŵn: a oes unrhyw un yn sylwi ar newid mewn lefelau sŵn - Bioamrywiaeth: a oes effaith ar fywyd gwyllt a nifer y rhywogaethau - Amgylchedd dŵr: a oes effaith ar gyrsiau dŵr - Gwerthoedd opsiynau a dim defnydd: a yw'r cynllun yn cynnig dewisiadau amgen ar gyfer teithiau presennol ac a yw'n newid gwydnwch y system drafndiaeth	Gan fod y cynllun arfaethedig hwn hefyd yn ceisio annog newid dulliau teithio o geir preifat i wasanaethau bws lleol trwy wella'r cyfleusterau safleoedd bws, bydd gostwng traffig yn helpu i leihau sŵn traffig ar y ffyrdd ar hyd y llwybrau'n gyffredinol, yn ogystal ag wrth safleoedd bws penodol gan na fydd rhaid i fysus aros mor hir i deithwyr fynd arnynt. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth ond gan fod nod y cynllun yw annog newid dulliau teithio o geir i drafndiaeth gyhoeddus, bydd yn helpu i leihau allyriadau carbon.

		Bydd unrhyw waith sifil ar safleoedd bws yn ystyried llifoedd draenio.
Cymru iachach <i>Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o les corfforol a meddyliol pobl ac sy'n deall pa ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i'w hiechyd yn y dyfodol.</i>	- Gweithgarwch corfforol: faint o gerdded, beicio a mathau eraill o ymarfer corff a wna pobl - Damweiniau: faint o anafiadau a pha mor ddifrifol - Diogelwch: pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo - Ansawdd teithio: er enghraifft, cysur y cerbyd a chyfleusterau cyrchu gwybodaeth - Ansawdd aer: a oes newidiadau yn ansawdd yr aer - Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Bydd buddsoddi yn y seilwaith ar hyd y coridor arfaethedig ac mewn cyrchfannau allweddol yn annog newid dulliau teithio o ddefnyddio ceir i ddefnyddio bysus, gan leihau lefelau llygredd lleol a gwella ansawdd yr aer yn lleol. Bydd newid dull teithio o ddefnyddio ceir i ddefnyddio bysus a lleihau maint y traffig hefyd yn annog ac yn hwyluso teithio llesol dros bellteroedd byr megis rhagor o deithiau cerdded i fannau cychwyn a gorffen taith y bws. Bydd cysgodfeydd newydd yn gwbl dryloyw ac wedi'u goleuo'n llawn o'u cymharu â chysgodfeydd presennol nad ydynt felly. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i wella'r ymdeimlad o ddiogelwch wrth y safleoedd bws hyn. Gan mai nod y gwaith sifil arfaethedig yw gwella mynediad a'i gwneud yn haws i bob person, ond yn enwedig i bobl sydd â nam symudedd, bydd yn helpu i leihau'r posibilrwydd o ddamweiniau wrth gyrchu gwasanaethau. Bydd lleihau tagfeydd traffig yn y manau cyfyng allweddol yn arwain at fuddion amgylcheddol ehangach gan gynnwys gostyngiadau mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thraffig, gwelliannau i ansawdd aer lleol a manau cyhoeddus mwy deniadol. Bydd gwella dibynadwyedd a phrydlondeb y gwasanaethau bws, yn ogystal â mynediad at y rhwydwaith bysus lleol trwy wella'r seilwaith, yn sicrhau buddion ehangach i drigolion lleol o ran eu galluogi i ddefnyddio'r gwasanaethau bws i gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau lleol fel rhan o'u gweithgareddau arferol dydd i ddydd.

		Mae gwella dibynadwyedd a mynediad at wasanaethau bws prif ffordd, fel Gwasanaeth 304 N.A.T. Group a Gwasanaeth 96 Bws Caerdydd, yn cynnig ffordd fwy cost-ffeithiol ac ecogyfeillgar o gyflawni'r amcan hwn. Mae'n fwy derbyniol yn gymdeithasol i drigolion sydd â symudedd cyfyngedig, gan eu bod yn gallu cael mwy o hyblygrwydd wrth deithio i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau amrywiol a gall helpu hefyd yn yr ymdrechion i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol unigedd ar iechyd.
Cymru fwy cyfartal <i>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).</i>	- Fforddiadwyedd: a oes unrhyw newid i'r costau teithio sy'n cael eu talu gan ddefnyddwyr - Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol	Ni chaiff y cynllun hwn effaith ar unwaith ar gostau teithio a godir gan weithredwyr gwasanaethau bws lleol sy'n gwasanaethu'r safleoedd bws hyn. Fodd bynnag, gan fod y cynllun yn ceisio annog newid dulliau teithio o geir preifat i ddarpariaeth gwasanaethau bws lleol, gallai cynnydd yn y defnydd o'r rhain arwain at gynnig prisiau rhatach yn y dyfodol. Nod y cynllun yw darparu cyfleusterau sy'n hygyrch i bob person ni waeth gallu, hil, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol y person.
Cymru o gymunedau cydlynol <i>Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel a chydgyssylltiedig.</i>	- Gwahanu: a yw unrhyw grwpiau o bobl yn cael eu gwahanu oddi wrth eraill neu gyfleusterau y maent yn eu defnyddio'n rheolaidd - Asesiad o'r effaith ar gefn gwlad	Mae'r cyfleusterau presennol yn anodd i rai defnyddwyr (e.e. pobl â nam symudedd a nam ar eu golwg) sydd o ganlyniad yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau bws lleol yn yr ardal hon. Nod y cynllun hwn yw cywiro'r sefyllfa hon. Bydd y cynllun hwn yn gwella mynediad at wasanaethau trafndiaeth i'r ardal hon ac ohoni sydd hefyd yn gwasanaethu cymunedau ac ardaloedd gwledig (e.e. Arfordir Treftadaeth Bro Morgannwg).
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	- Tirwedd: a oes effaith weledol neu arall ar y dirwedd - Treflun: a oes effaith weledol neu arall ar y treflun - Amgylchedd hanesyddol: a oes unrhyw newidiadau mewn ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol	Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys darparu cysgodfeydd modern ar safleoedd bws (yn ddelfrydol wedi'u gwneud o ddur di-staen a gwydr yn unol â chynlluniau lliw Trafnidiaeth Cymru er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol). Bydd hyn yn welliant

<i>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden.</i>	Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg	sylweddol o gymharu â'r cyfleusterau presennol ac yn gwella'r effaith weledol ar yr ardal. Bydd unrhyw wybodaeth ar faneri safleoedd bws a roddir fel rhan o'r cynllun hwn yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg yr un mor gyfartal.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang <i>Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd).</i>	Nwyon tŷ gwydr: a oes newid o ran swm y nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru	Trwy annog newid dulliau teithio o geir preifat i wasanaethau bws lleol a thrwy helpu i gyflymu llif traffig trwy leihau'r amser a gymerir i fynd ar fysus ac oddi arnynt wrth safleoedd bws.

3. ACHOS RHEOLI

A ellir cyflawni'r cynllun? Beth yw'r risgiau?

Rhaid darparu cynllun prosiect sy'n nodi amserlenni ar gyfer gweithgareddau a cherrig milltir allweddol ar gyfer pob cynllun sy'n briodol i'r raddfa, y cymhlethdod a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Pan fo cyfnodau allweddol/cerrig milltir wedi'u cyrraedd/cwblhau, nodwch y dyddiad lle bo'n berthnasol. Dylid darparu o leiaf y canlynol lle maen nhw'n berthnasol i'r cynllun: gwybodaeth am y dyluniad; amseru prosesau statudol/caniatâd cynllunio; caffael tir; caffael; adeiladu; ac agor a chwblhau'r cynllun.

Rhaid cynnwys gwybodaeth am risgiau i fesurau cyflawni a lliniaru sydd ar waith neu yn yr arfaeth.

Er bod nifer o safleoedd bws ym Mro Morgannwg y mae angen eu huwchraddio, bydd y prosiect hwn yn nodi 10 safle bws addas a gaiff eu huwchraddio, y gellir eu cyflawni o fewn y cyfnod blwyddyn.

Bydd y gwaith yn cael ei reoli gan Dîm Dylunio ac Adeiladu'r Cyngor gyda'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn gleient iddo.

Cynllun y Project (amcangyfrif)

- Ch1/Ch2 (2021-22) = Dyluniad manwl
- Ch3/Ch4 (2021-22) = Rheoli Prosiectau/Contractau
- Ch3/Ch4 (2021-22) = Goruchwyllo ac adeiladu safleoedd

Sylwer:

- Mae'r amserlenni uchod yn dibynnu ar pryd y bydd/a fydd cyllid ar gael.
- Gall tywydd gwael oedi neu estyn cyfnod y gwaith adeiladu ac felly mae'n bosibl na chaiff y cynllun ei gwblhau o fewn yr amserlen arfaethedig.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod digon o fesurau wrth gefn yn cael eu cynnwys wrth ystyried y dyddiad dechrau cytunedig.

- Gellid codi gwrthwynebiadau yn ystod y broses ymgynghori a gallent arwain at oedi cyn gosod safle bws neu godi cysgodfa newydd ar safle bws.

Bydd y Cyngor yn cydweithio'n agos â'r gweithredwr bysus a phreswylwyr a busnesau lleol ynghylch y rhaglen waith.

- Gallai'r effaith ar ecoleg leol yn ystod gwaith adeiladu neu ailwynebu gael effaith niweidiol ar gynefinoedd lleol a'r system ddraenio. Caiff hyn ei ystyried fel rhan o ddyluniad manwl y cynllun hwn.
- Gallai cyflenwyr allanol achosi oedi o ran cyflenwi deunyddiau seilwaith a chysgodfeydd bws newydd.

4. ACHOS ARIANNOL

Proffil gwariant ariannol

£000oedd, prisiau Alldro (gros y grant / cyfraniadau a ddangosir ar wahân isod)

	Cyn 2020/21	2020/21	2021/22 (amcanestyniad)	2022/23	2023/24	2024/25	Yn ddiweddarach	Cyfanswm
Arolygon								
Dylunio			11,600					11,600
Prynu Tir								
Gwaith ar Lety								
Adeiladu			330,000					330,000
Rheoli Prosiectau			26,750					26,750
Monitro a Gwerthuso								
Hyrwyddo			1,285					1,285
CYFANSWM GROS			369,635					369,635
Swm yr arian cyfatebol, canran y cyfraniad a'r ffynhonnell(au) ariannu (<i>nodwch enw'r sefydliad</i>)								
CYFANSWM NET			369,635					369,635

Proffil Gwariant Chwarterol

(Dylid cynllunio gwariant mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn ariannol i sicrhau hyder o ran gwariant llawn. Dylai gwariant a gynllunnir ar gyfer Chwarter 4 gael ei gyfyngu i leihau'r risg o danwario); £oedd

	Rhagamcan Gwariant ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021-22 (mewn £000oedd)			
	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
Arolygon				
Dylunio	5,800	5,800		
Prynu Tir				
Gwaith ar Lety				
Adeiladu			165,000	165,000
Rheoli Prosiectau			13,375	13,375
Monitro a Gwerthuso				
Hyrwyddo				1,285
CYFANSWM GROS	5,800	5,800	178,375	179,660
Swm yr arian cyfatebol, y cyfraniad canrannol a'r ffynhonnell(au) (nodwch enw'r sefydliad)				
CYFANSWM NET	5,800	5,800	178,375	179,660

5. ACHOS MASNACHOL

Sut caiff y cynllun ei gaffael? Beth yw nifer a phrofiad y cyflenwyr tebygol? Beth yw'r trefniadau cytundebol allweddol; beth yw hyd cyfnod y contract?

Bydd y cynllun yn cael ei reoli gan Dîm Dylunio ac Adeiladu mewnol y Cyngor gyda'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn gleient iddo.

Bydd y cysgodfeydd bws newydd yn cael eu caffael trwy borth caffael ar-lein GwerthwchiGymru, a fydd yn cynnwys gwaith gosod ar ôl cwblhau unrhyw waith sifil gofynnol y mae'r Cyngor yn ei wneud.

Yn dilyn tendrau blaenorol am gysgodfeydd ar gyfer safleoedd bws, mae Clear Channel UK a'r cwmni lleol Bus Shelters Ltd ill dau wedi llwyddo i sicrhau gwahanol archebion gan yr awdurdod hwn. Mae'r ddau gyflenwr hyn yn brofiadol iawn yn y fath waith (h.y. gweithgynhyrchu, cyflenwi a gosod). Nod y contract fydd gweithgynhyrchu, cyflenwi a gosod y cysgodfeydd erbyn diwedd mis Mawrth 2022 gyda chontract glanhau ychwanegol am hyd at 4 blynedd.

Bydd byrddau gwybodaeth trydan yn cael eu caffael gan gyflenwr y seilwaith presennol ym Mro Morgannwg.

MONITRO A GWERTHUSO

A oes cynllun monitro a gwerthuso wedi'i baratoi?

Os oes, rhowch y manylion isod neu atodwch ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth. Beth yw'r data sylfaenol a'r targedau perthnasol?

Bydd gwaith monitro'n cael ei wneud yn y ffyrdd canlynol os yw'r cais hwn yn llwyddiannus (h.y. yn dibynnu a yw gofynion cyfyngiadau symud Covid Cymru yn caniatáu hynny): -

1. Bydd nifer y teithwyr sy'n defnyddio pob safle bws yn cael ei nodi cyn cynnal y gwaith gwella ar gyfer amserau/dyddiad penodol (2021).
2. Bydd nifer y teithwyr sy'n defnyddio pob safle bws yn cael ei nodi cyn cynnal y gwaith gwella ar gyfer amserau/dyddiad penodol (h.y. yr un dyddiad ac amserau ond yn 2022 ar ôl cwblhau'r gwaith).
3. Caiff adborth am y gwaith gwella a wneir wrth y safleoedd bws ei gasglu gan ddefnyddwyr trwy gynnal yr arolwg uchod yn 2022 ar ôl cwblhau'r gwaith. Targed o 90% o ymatebwyr naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwaith a wnaed wrth eu safle bws lleol.

A oes unrhyw waith monitro neu werthuso eisoes wedi'i wneud?

Os oes, rhwch fanylion isod neu atodwch ddogfennau perthnasol i'r cais hwn fel tystiolaeth.

Nid hyd yn hyn wrth gyflwyno'r cais. Penderfyniad bwrdd gwaith wedi'i seilio ar wybodaeth am yr ardal a'r safleoedd bws y mae angen eu gwella.